

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 32/33 Awst 11/18, 2022 50c.

Beiblaidd yng Ngholeg y Beibl, Derwen Fawr, Abertawe. Yno fe gyfarfu â'i gŵr, David, a phriodi yn eglwys Annibynnol Bethesda, Cwrt Sart yng Nghastell-nedd. Mae DNA Mission UK: David ac Adriana Beddows yn frwd iawn i gynorthwyo capeli Cymraeg a Saesneg yr ardal trwy eu pregethu ac maent wedi bod yn brysyr yn cynorthwyo eglwys Saron dros y blynyddoedd. O ganlyniad i gysylltiadau Adriana gyda Brasil, penderfynwyd rhai blynyddoedd yn ôl i ddod a chenhadon o Frasil pob blwyddyn er mwyn

*parhad ar dudalen 2*

## Brasil a Chreunant

Ym mis Gorffennaf bu gwaith cenhadol arbennig yn digwydd yn eglwys Saron, Creunant mewn cydweithrediad â deg o eglwysi lleol eraill. Er mwyn ymateb i'r dirywiad ysbrydol enbydus sy'n digwydd yng Nghymru, penderfynodd yr eglwysi i wahodd deg cenhadwr o Frasil i



ddod i weithio yn eu plith am gyfnod o fis. Yn y degawdau diwethaf y mae twf aruthrol wedi bod ar Gristnogaeth o gefndir Protestannaidd a charismataidd ym Mrasil. Y mae eu gwaith yn amlwg o dan fendith yr Arglwydd. Yn yr eglwysi hynny y mae nifer yr aelodau wedi cynyddu o 2 filiwn yn 1960 i 55 miliwn yn 2020. Erbyn hyn y mae poblogaeth Brasil yn 214 miliwn sy'n golygu fod 25% o'r boblogaeth yn mynychu eglwysi Protestannaidd.

### Enillgar

Fel man cychwyn i'r gweithgarwch pwysig hwn daeth y cenhadon o Frasil am fwyd barbeciw i gartref teulu gweinidog yr eglwys, Rhys Locke ar 12 Gorffennaf. Roeddent yn ymweld â deg eglwys yn yr ardal er mwyn rhannu'r newyddion da am Grist. Ymhlith nifer o weithgareddau eraill, aethant ar ymweliad ag ysgol y Creunant i ddysgu'r plant am yr Amazon a dosbarthu cardiau bach gydag enw'r Iesu arnynt. Dywedodd Rhys: 'Braint enfawr imi ac eglwys Saron, Creunant oedd croesawu'r cenhadon o Frasil i'n plith. Nid yw hyn yn ddigwyddiad newydd oherwydd maent yn dod pob blwyddyn ers rhyw chwe blynedd. Dônt i Gymru o dan adain grŵp cenhadol DNA Mission UK o dan arweiniad David ac Adriana Beddows sydd yn byw yn Abergarwed, nid nepell o bentref Resolfen.'

### Dolen

Daw Adriana yn wreiddiol o Frasil ac fe ddaeth yma i wneud astudiaethau



## HUW EDWARDS YN GOSOD HER I'R ANNIBYNWYR



Rhaid i ni fel Cristnogion fod yn fwy hyblyg ac ymateb i'r newidiadau sy'n digwydd o'n cwmpas, meddai Huw Edwards wrth annerch cynulleidfa o 200 o bobl yng ngŵyl Sul Sbsial Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Fe wnaeth e hefyd ein hannog ni i fod yn fwy parod i godi llais am faterion cyfoes sy'n ymwneud â'n cymdeithas a'n cenedl ni. Adroddiad llawnach a mwy o luniau ar y dudalen gefn.

## 'Her yr Eglwys ôl-Covid'

Mae copiâu o anerchiad llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2022 gan y Parchg Beti-Wyn James ar gael o Dŷ John Penri.

Cysylltwch naill ai dros e-bost: [undeb@annibynwyr.cymru](mailto:undeb@annibynwyr.cymru) neu ffôn: (01792) 795888

Pris: £5 + cost postio.

## Rhwydwaith Heddwch

Roedd gwedd ychydig yn wahanol ar gyfarfod y Rhwydwaith Heddwch yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr eleni yng Nghaerfyrddin. Yn hytrach na chael siaradwr gwadd fe gafwyd cyflwyniadau gan feirdd lleol o dan gadeiryddiaeth y Parchg Guto Prys ap Gwynfor.

Dyma ddwy o'r cerddi a gyflwynwyd gan rai o aelodau Ysgol Farddol Caerfyrddin, sydd wedi bod wrthi'n dysgu crefft barddoni a chynganeddu ers deng mlynedd ar hugain. Thema'r cyflwyniad oedd 'Tangnefedd y Beirdd' ac yn y sesiwn ardderchog hon cafwyd sawl gwedd ar heddwch a chyfiawnder.



## Cwrdd

*i Luisa Calderón, merch ifanc a boenydiwyd mewn modd atgas gan Thomas Picton*

Ein hannog a wna hanes i ddwyn oed â ddoe yn nes; ond o heddwch ein dyddiau da melyswn gam Luisa, rhoi heulwen wnawn ar hiliaeth a rhoi gwên ar ei hawr gaeth, rhoi QR lle bu'r curo a chau ceg cri fach y co'. Ai dyna'r iawn a wnawn ni â'n Hingland o ddehongli? A phetae ein camau'n cwrdd, ein cyffion fyddai'n cyffwrdd.

**Aled Evans**  
Ysgol Farddol Caerfyrddin

## Brasil a Chreunant – parhad

cynorthwyo'r eglwysi yn yr ardal ymhellach trwy bregethu, rhoi tystiolaeth a'u cymell i barhau yn y ffydd a'r gwaith o gyhoeddi'r Newyddion Da.

### Croeso

Eleni croesawyd y cenhadon i Saron gyda 'Noson o groeso/Welcome evening' lle mwynhawyd oedfa a phryd o fwyd gyda'r unigolion hyfryd o Frasil. Cafwyd cyfle i addoli'r Arglwydd a rhannu profiad am ein ffydd heb sôn am fwyta danteithion a baratowyd ar ein cyfer. Mwynhaodd y plant, yr eglwys a'r teuluoedd yn fawr yn eu cwmni. Gweddian am fendith Duw ar eu gwaith yn ein plith, yn enwedig yn eu prif eglwys: Bethesda, Cwrt Sart. Edrychwn ymlaen fel eglwys i'w croesawu i'r capel unwaith eto ac fe estynnir croeso i bawb. Diolchwn i Dduw am ddod a chenhadon i Gymru.



**Parchg W. Rhys Locke**

## Malala

*Malala Yousafzai – y ferch a saethwyd gan y Taliban, am fynd i'r ysgol.*

Yn y gwyll cenaist dy gân a'i hadlais yn y goedlan, a'th gân oedd mor wahanol, drwy'r nos ac yn ddi-droi 'nôl. Fel pibydd drwy'r gwÿdd yn gwau, y llais yn denu'r lleisiau yn gôr, nes deor y dydd i ni â'i drydar newydd. Yr un salm yn Nyffryn Swat a'r nos iau yn troi'n seiat.

Nid cawell yr un gell gaeth fu geiriau dy fagwraeth. O danat rhoed adenydd o'r rhwyd i hedfan yn rhydd i'r wybren, rhwng canghennau, â hwyll las dy orwel iau. Dy hawl yn glasu'n y dail,

a'r gwae yn suo'r gwaiil.

A thynged yr ehedydd yw rhoi'r dôn ym more'r dydd, yn yr helyg mae'r alaw, a'i nodau hi yn ddi-daw.

Yn daer fu'r gelyn ar d'ôl drwy wlad yr alaw hudol, a tharged y bwledi yn dân i'th dawelu di, dwgyd y gân o'th wanwyn; y llais sy'n ddistaw'n y llwyn.

Gadael tref a chynefin, rhoi parhad i'th eiriau prin; daw gwledd dy grescendo glân yn adlais drwy ein coedlan.

Ie, byw rwyt y 'deryn brith ar orwelion d'athrylith.

**Siw Jones**  
Ysgol Farddol Caerfyrddin



## Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Caerfyrddin 2022

*Dyma drydedd ran adroddiad y Parchg Dyfrig Rees a draddodwyd ganddo yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni.*

### Heulwen dan Gymylau: Eglwysi Dementia Gyfeillgar

Ffrwyth ymateb i benderfyniad a gyflwynwyd gerbron cynhadledd 2019 gan Gyfundeb Dwyrain Morgannwg yw'r rhaglen hon ac un a berchnogwyd ganddo. Pedwar o'r aelodau dan gadeiryddiaeth Emlyn Davies, gyflawnodd y gwaith ardderchog ddaw i'n meddiant yn fuan.

### MSP4

Y mae'r rhaglen hon wedi eistedd yn dawel ar silffoedd TJP ers cryn amser. Wedi ei llunio gan Dr Geraint Tudur yn 2018 yn ymestyniad naturiol o'r gwaith a wnaed o dan nawdd y Rhaglen Ddatblygu a chynllun *Y Ffordd*, yn arbennig. Ail-ymwelwyd â'r rhaglen ddiwedd 2021 a than ysgogiad Dr Michael Jaggesar CWM cafwyd gafael newydd arni. Bu'r staff fel un tîm yn ddyfal ei waith ac erbyn hyn cafwyd rhaglen gyffrous fydd yn sicr yn gyfrwng ysbrydoliaeth ac ysgogiad inni i gyd. Gwelsom ddoe faint o fendith yw perthyn i deulu CWM.

### Y Drysorfa Gynorthwyl

Mae'r gwaith ar y drysorfa wedi bod yn hir a llafurus ac mae Meryl James, ein trysorydd wedi ymarfer mwy na mesur rhesymol o amynedd, nid hithau'n unig, ond Eifion Griffiths, ei rhagflaenydd, yn ogystal. I ni'n drwm yn eu dyled ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion yn fawr. Y mae niferoedd ein gweinidogion wedi lleihau'n gyson dros y degawdau olaf. Ar hyn o bryd y gennym 52 o weinidogion mewn gwaith, 49 ohonynt â gofal eglwysi. Mae nodi mai prin 20 o rheiny sy o dan 60 oed yn arwydd eglur o'r newid ddaw eto i'n rhan gyda golwg ar niferoedd gweinidogion.

Yr hyn sy'n bwysig cofio yw bod Duw yn dal i alw, a bydd cwmni o weinidogion yn ein plith cyn belled ag y gwelwn ni i'r dyfodol. Wrth gynnig nawdd i gynnal gweinidogaeth y mae'r Undeb, nid yn unig, yn dangos cefnogaeth i'r eglwysi a'u gweinidogion, ond yn cydnabod eu gweinidogaeth letach, ehangach, gwbl angenrheidiol yn y drefn gynulleidfaol. Bu, ac y mae llawer o'n gweinidogion yn ystyried gwasanaethu cyfundeb ac Undeb fel rhan annatod, greiddiol o'u gweinidogaeth.



### Cydlynnydd Hyrwyddo Gweinidogaethau

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, 2021 penderfynodd y Pwyllgor Gweinyddol bod yr amser yn aeddfed i ddwyn y cyfrifoldeb o hyfforddi ymhlith yr Annibynwyr i ofal yr Undeb. Gwnaethpwyd y penderfyniad yn hysbys i ymddiriedolwyr Coleg yr Annibynwyr Cymraeg. Wedi trafodaethau digon anodd, dygwyd argymhelliad gerbron tanysgrifwyr y Coleg i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am hyfforddi ymhlith yr Annibynwyr i ofal yr Undeb ac fe fydd hynny'n cymryd lle ddiwedd y flwyddyn hon. Rwy'n sylweddoli bo'r penderfyniad hwn wedi bod yn un poenus i lawer a charwn i ddim i neb feddwl i'r pwyllgor gweinyddol weithredu'n ysgafn a di-hid.

Y gobaith yw cyflawni'r hyn a wnaed gan y Coleg a'r Undeb dros y blynyddoedd sef darparu hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n dymuno gwasanaethu'r deyrnas a chyflawni eu gweinidogaethau yn yr eglwysi a thu hwnt iddynt. Gwaith y mae Annibynwyr, o ddyddiau Samuel Jones, Brynllwarch hyd at ein dyddiau ni, gyda diolch am ddsbarthiadau Euros ym Mangor, Aled yng Nghaerfyrddin, Guto yn Llandysul a Noel yn Abertawe.

Dymuniad yr Undeb yw gweld y drefn gynulleidfaol hon yn cael ei grymuso. I hynny ddigwydd yn effeithiol credwn fod mantais mewn dwyn y gwaith cydlynu a gweinyddu i ofal yr Undeb. Yr ydym yn gweddio y cawn ni berson o weledigaeth ac argyhoeddiad arbennig i'n harwain yn y gwaith hwn ac y gwelwn ni bobl yn cael eu hysgogi a'u cymhwyso i waith gweinidogaeth yn ein plith.

### Gwirfoddolwyr

Y mae'r Undeb yn llwyr ddibynnol ar weithlu arbennig iawn o wirfoddolwyr ac yr ydym yn wir ddiolchgar iddynt am eu llafur rhydd a pharod bob amser. Yn eu plith Dr Noel Davies, sy'n ymddeol eleni fel cadeirydd y Pwyllgor Llywio yn ogystal â fel cadeirydd y gweithgor Cymru ac Ewrop y bu'n ei wasanaethu'n ffyddlon a chyda chyfraniad gwerthfawr dros y chwe blynedd ddiwethaf.

Y mae'r Dr Hefin Jones yn ei olynu fel cadeirydd y Pwyllgor Llywio

Y mae Dr Fiona Gannon, y mae ei chymwynasau i'r Undeb yn lleng yn gorffen fel cadeirydd y pwyllgor staffio. Bu'n ddiwyd iawn ei gwaith ac yn barod iawn ei chymwynas a'i chefnogaeth i ni fel staff bob amser. Diolch. Yn ei holynu y mae Mr Gethin Thomas, Capel Seion, Drefach un sydd eisoes wedi gwneud

cyfraniad gwerthfawr fel aelod o'r Pwyllgor Staffio.

Wedi tymor hir o wasanaeth ar y Congregational Fund Board, y mae Parchg Gwylfa Evans yn dymuno ymddeol o'i gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. Un arall o aelodau Harrow yw ei olynydd, Mrs Glenys Earnshaw ac i ni'n dymuno'n dda iddi yn y gwaith.

Bu'r Parchg Eirian Rees yn aelod o fwrdd golygyddol *Gair y Dydd* am amser hir. Y mae yntau'n dymuno ymryddhau o'i gyfrifoldebau ac fe'i holynir gan y Parchg Casi Jones.

Mae bwlc gennym ar weithgor Cyfiawnder Hiliol Cytûn. Y sawl sydd ganddo glustiau!

Methwyd â chanfod olynydd i Miss Meryl James eto, ac yr ydym yn dra diolchgar iddi am fodloni parhau yn y swydd. Gwna hynny ar yr amod ein bod yn bwrw ati'n ddiymdroi i geisio olynydd iddi ac y mae Pwyllgor Gweinyddol yn tybio mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trwy ail gysylltu â'r cyfundebau a cheisio ganddynt enwebu rhywrai ar gyfer y swydd. Yr ydym yn mawr hyderu y digwydd hynny'n unol â'n dymuniad y tro nesaf hwn.

Gaf i ddiolch i swyddogion yr eglwysi, y cyfundebau a'r cyngor am eu gwaith dros gyfnod digon twmpathog.

*Bydd y bedwaredd ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

## Dymuniadau da

Anfonwn ein cofion at Vikki Tudur sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch ei bod yn gwella, a gweddiwn am fendith Duw arni hi a'r teulu i'r dyfodol.

Iwan Llewelyn



## DATHLIAD

Y Parchg Gwylfa Evans

60 mlynedd ers ei ordeinio yn weinidog 1962–2022

Eglwys Annibynnol  
Gymraeg Harrow

**Prynhawn Sul  
Medi 11 am 3.00pm**

Croeso cynnes i bawb

## Yr Eglwysi'n Gytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Cynhaliwyd oedfa yn y pafiliwn fore Sul, 31 Gorffennaf, ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Croesawyd y gynulleidfa gan Elin Jones, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a chymerwyd rhan gan nifer o drigolion yr ardal – yn blant ac oedolion. Thema'r oedfa oedd 'Dadeni' a chafwyd anerchiad effeithiol a chlir gan y Parch. Athro Densil Morgan. Gellir darllen ei anerchiad yn [Cenn@d](#), rhif 75.

Dilynwyd yr oedfa y noson honno gan y Gymanfa Ganu flynyddol, a braf yw tystio i lond pafiliwn o ganu moliant. Diolch i Delyth Hopkins Evans am arwain y gymanfa mor effeithiol, gan greu naws addolgar a defosiynol. Bu i nifer a fu yno dystio i'r angerdd a'r llawenydd a deimlwyd yno, a hyn efallai'n adlewyrchu effaith y cyfnod clo wrth i'r canu a'r cymanfaoedd gael eu teui dros dro. Cofiwch fod modd gwyllo'r oedfa a'r gymanfa ar S4Clic dros yr wythnosau nesaf hyn.

Bu Pabell yr Eglwysi o dan nawdd Cytûn yn llawn bwrlwm gydol yr wythnos, ac adroddir ychydig o'r hanes yn y lluniau a'r capsynau sy'n dilyn. Daeth dros 150 o wirfoddolwyr lleol i weithio ar y stondin yn ystod yr wythnos, ac fe hoffai Aled a Delyth Wyn Davies, a fu'n trefnu'r babbell ar ran Cytûn, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a fu'n rhan o'r bwrlwm hwn.



Yn rhan o lansiad y gyfrol *Malwan Bach fel fi... yn cloddio am aur* gan Prydwen Elfed-Owens, dan gadeiryddiaeth John Roberts, *Bwrw Golwg*, holwyd Aled Davies, Betti-Wyn James, Alwyn Humphreys a Rhys Llwyd.

Braf fu croesawu Ifan Gruffydd atom i gynnal oedfa, a hynny yng nghwmni Carlo'r ci. Siaradodd am ddameg y ddafad golledig, gan bwysleisio bod lesu yn caru ac yn gofalu am bob un ohonom. Diolch i'r dyrfa o blant a ddaeth i mewn atom i glywed y stori.



Y babbell wedi ei pharatoi yn barod ar gyfer agor bore Sadwrn. Diolch o galon am gymorth parod y llu o wirfoddolwyr o eglwysi lleol, ond yn fwyaf arbennig i Carwyn ac Alicia Arthur o Dregaron am roi wythnos gyfan i ni er mwyn gofalu am y babbell.



Nos Fercher cafwyd cyfle i gynnal digwyddiad arbennig i ddiolch i'r Parch. Tom Defis o Gymorth Cristnogol am flynyddoedd o waith fel trefnydd y de-orllewin. Daeth llond pabell ynghyd – nifer wedi teithio cryn bellter er mwyn bod yno i ddiolch i Tom.



Bwrlwm y babbell – bu prysurdeb rhyfeddol yn y babbell gydol yr wythnos. Paratowyd 6,000 o baneidiau o de neu goffi, a rhanwyd 5,000 o deisennau cri. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Parch. Eifion Arthur Roberts am gludo'r teisennau cri i mewn atom bob dydd.



Daeth Gwilym Tudur a Gruffydd Rhys Davies atom un bore i gynnal oedfa, a hynny yn enw'r Gorlan Gristnogol. Buont ill dau'n gweithio'n ddyfal yn ystod yr wythnos yn sgwrsio ar y babbell Gristnogol arall ar y maes, sef stondin y Mudiad Efengylaidd.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

### Yr Eglwys yn Gytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol


(parhad o dudalen 1)



Cornel gweithgaredd y plant – braf fu cael cyfeillion o fudiad Plant Dewi yn gwirfoddoli gan drefnu amrywiaeth o grefftau a gweithgareddau ar gyfer y plant.



Anne Uruska o'r Cylch Catholig yn arwain oedfa'r bore, gyda Delyth Wyn yn cyfeilio.



Dysgwr o California yw Phil Wyman. Erbyn hyn mae'n rhugl yn y Gymraeg ac yn genhadwr yng Nghaernarfon. Daeth i mewn atom un bore i rannu detholiad o ganeuon Cristnogol.



Braf fu cael cwmni tri llywydd enwadol ar y stondin yr un pryd, sef Evan Morgan, Llywydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru; Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a Densil Morgan, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Bu i'r tri dreulio amser ar y stondin yn ystod yr wythnos yn croesawu ymwelwyr i'r babell.



Tu allan i'r babell, dan nawdd Cymdeithas y Beibl, roedd yna ardd Feiblaidd, wedi ei hysbrydoli gan ardd o Sioe Flodau Chelsea. Trwy glicio ar ddolen i wefan ar eich ffôn, roedd modd gwrandao ar fyfyrddod pum munud yn esbonio ystyr ac arwyddocâd Salm 23.



Traddodiad eisteddfodol blynyddol yw'r offeren o dan nawdd yr Eglwys Gatholig, a gynhaliwyd eleni yn Eglwys y Santes Fair yn Nhrefarfon.



Bob blwyddyn ceir detholiad da o lyfrau a lansio nifer o gyfrolau newydd. Un gyfrol a welodd olau dydd gan awdur o Geredigion oedd *Geiriadur y Gair*, sef geiriadur Beiblaidd newydd gan D. Geraint Lewis.

Er mai pabell o dan nawdd Cytûn yw hon, cofiwch mai'r enwadau sy'n perthyn i fudiad Cytûn sy'n berchen ar y babell a'r gwaith. Braff eleni oedd cael baner newydd yn nodi enwau'r 14 enwad sy'n ffurfio Cytûn, ynghyd â nifer o fudiadau ac asiantaethau Cristnogol.

## Mae eich gwlad eich angen CHI

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn bwrw trem ar drefniadau'r Sioe Fawr yn Llanellwedd, gan adrodd ar y dystiolaeth Gristnogol yno

Tybed wnaethoch chi fentro i faes y Sioe eleni ynghanol y tywydd poeth, fel y gwnaeth tua 50,000 o bobl bob dydd? Wrth gyrraedd y Sioe eleni, a dod i mewn drwy'r brif fynedfa ger y tyrau mawr, a cherdded ar hyd y prif lwybr ar ffordd D, un o'r stondinau mawr cyntaf yno oedd standin y Fyddin. Roedd yn standin drawiadol iawn, gyda thanciau a phob math o ynnau ac arfau tu allan, â phlant i'w gweld yn dringo ac yn chwarae arnynt o fore gwyn tan nos. Roedd yna fand pres yn perfformio bob awr, a llu o anerchiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd o ynnau ac arfau.

Roedd anrhegion lu i'r plant, a chylchgronau'n cael eu gwthio ar bobl wrth iddynt gerdded heibio.

Y drws nesaf yr oedd standin yr Awyrlu Brenhinol, ag awyren yn llawn arfau a bomiau yno'n fgythiol gysgod dros bawb oedd yn pasio. Ar draws y ffordd yr oedd standin y Llynges Filwrol Frenhinol, hwythau hefyd efo standin sylweddol a phrysus.

Mae'r cysylltiad rhwng y Sioe a'r fyddin yn hanesyddol wedi bod yn un glòs, â nifer o sioeau ceffylau'n diddori'r dorf sawl gwaith y dydd, a thanio'r gynnuau'n digwydd yn rheolaidd, heb anghofio am hedfaniadau dyddiol y Spitfires uwch maes y Sioe. Mae'n debyg fod dros 250 o wirfoddolwyr milwrol yno, gan gynnwys plant a phobl ifanc y cadetiaid. Roedd y stondinau hyn yn rhai byrlymus a hwyliog iawn, a thorfeydd o deuluoedd yn ymgasglu



Adleisiau o alwad dychrynlyd y Rhyfel Byd Cyntaf i'w gweld ar faes y Sioe eleni

yno, er mwyn i blant gael cyfle i ddringo a chwarae ar yr arfau. Mae'n debyg mai 'recrwtio' a 'normaleiddio arfau' oedd eu prif reswm dros fod yno, ac mae'n amlwg fod degau o filoedd o bunnau wedi'u gwario ar yr ymdrech.

O barhau i gerdded ar hyd y ffordd, roedd pabell fechan gan y Mudiad Efengylaidd, a phabell arall gan fudiad cenhadol Show Jesus, y ddau ohonynt yn rhannu tractiau ac yn cynnal sgysiaid cenhadol. Yna, o barhau i gerdded ar hyd rhes D, roedd pabell yr Eglwys o dan nawdd Cytûn. O fewn y pabell honno, roedd chwech o wirfoddolwyr, gyda chriw yn gwneud paneidiau, a Siân yn gofalu am y rhaglen i blant. Do, fe rannwyd cannoedd o baneidiau, ac fe wnaeth dros 200 o blant ymweld

â'r pabell i wneud gwaith crefft a gweithgareddau yn ystod yr wythnos. Diolch i'r Parch. Tim a Helen Williams am eu gwaith diflino o fewn y pabell gydol yr wythnos. Bu cyfle am sawl sgwrs ddwys ac adeiladol, gan drafod heriau'r byd amaeth a heriau'r ffydd yng Nghymru heddiw.

Bob dydd am 11 o'r gloch cynhaliwyd oedfa fer, a braf fu cael croesawu'r Parch. Evan Morgan, Llywydd EBC, a'r Parch Beti Wyn James, Llywydd UAC, i arwain yr oedfaon hyn yn eu tro. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi bob dydd yn ogystal, a hynny am 8.30 y bore, cyn anfon tîm bychan o wirfoddolwyr allan i'r maes i dreulio'r diwrnod yn eu siacedi oren llachar, â'r geiriau 'Caplaniaid y Sioe' ar eu cefnau. Eu gwaith nhw yn syml oedd bod yn bresenoldeb gweledol ar faes y Sioe, gan fod yn agored i gynnal sgysiaid yn ôl y galw. Yn eu plith yr oedd y Parch. Brian Reardon, gweinidog ffyddlon EBC yn Llanellwedd a'r cyffiniau.



Bwrlwm Pabell Cytûn ar faes y Sioe

Tybed pwy sylwodd arnynt? Tybed faint drodd i mewn i'r pebyll Cristnogol? Wel, nifer cymharol fach, dybiwn i, o'i gymharu â'r torfeydd oedd o gwmpas y stondinau milwrol. Mae llawer wedi cwestiynu a oes yna werth i ni fel enwadau fod yn y Sioe o gwbl! Gresyn na fu mwy o ddiddordeb o blith yr eglwys Cymraeg i wirfoddoli. O'r tîm o 12 caplan ar ddyletswydd eleni, dim ond un oedd yn siarad Cymraeg. Mynegwyd pryder hefyd am y diffyg caplaniaid benywaidd. Diolch am gefnogaeth yr Eglwys yng Nghymru; heb eu cefnogaeth nhw, ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal y ddarpariaeth hon.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

**Mae eich gwlad eich angen CHI**

(parhad o dudalen 1)

Felly, cri am help a geir yma. Cri debyg i'r alwad honno adeg y Rhyfel Byd Cyntaf – mae angen gwirfoddolwyr. Mae angen caplaniaid, ac mae angen hyfforddi'r caplaniaid hynny rŵan ar gyfer digwyddiadau 2023. Mae eich gwlad eich angen CHI! – Gristnogion Cymru – i fod yn halen ac yn oleuni, i fod yn llais sy'n cyhoeddi ffordd a llwybr gwahanol i'r hyn a glywir o gyfeiriad y sector milwrol. Ai arwydd o'r amserau yw fod 250 o bobl yn barod i gyhoeddi neges militariaeth tra bu'n gryn ymdrech i ddod o hyd i ddwsin o bobl oedd yn barod i gyhoeddi ffordd tangnefedd a gobaith, a chyhoeddi newyddion da efengyl Iesu Grist?

Dros y blynyddoedd diwethaf clywyd llawer o sôn am y straen ar lawer o ffermwyr heddiw, ac am unigrwydd y gwaith, heb sôn am ofidiau ariannol a phryderon iechyd meddwl. Gwelwyd sawl mudiad Cristnogol yn camu i'r adwy gan gynnig cefnogaeth, yn cynnwys y Farming Crisis Network, a'r DPJ Foundation, heb anghofio am waith arloesol Tir Dewi. Braff oedd cael croesawu a rhoi gofod i stondin Tir Dewi o fewn pabell yr eglwysi eleni. Dymunwn eu llongyfarch hefyd ar dderbyn gwobr nodedig yn y Sioe eleni am eu gwasanaeth i fyd amaeth yng Nghymru.

Sefydlwyd Tir Dewi gan yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi, a'r Esgob Wyn Evans yn 2015. Roeddent yn cydnabod y ffaith fod angen dybryd



Yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi

am help i ffermwyr oedd yn dioddef amserau anodd. Gyda chefnogaeth ariannol hael yr Eglwys yng Nghymru a Chronfa Cefn Gwlad y Tywysog, sefydlodd Eileen gynllun Tir Dewi fel llinell gymorth werthfawr a gwasanaeth cefnogol, naill ai dros y ffôn neu drwy drefnu ymweliad â'r fferm, yn ôl y gofyn. O ddechreuad bychan, pan oedd Eileen yn dosbarthu taflenni gwybodaeth i'r gymuned ffermio leol, tyfodd yr elusen yn llawer mwy na'r disgwyl. Bellach, mae Tir Dewi wedi llwyddo i helpu cannoedd o ffermwyr a'u teuluoedd a oedd, mewn un ffordd neu'r llall, yn ymdrechu i ymdopi. Heddiw, gall ffermwyr mewn angen mewn rhannau helaeth o Gymru gael mynediad at wasanaethau Tir Dewi.

Meddai Eileen, 'Hyd yn hyn rydym wedi sefydlu Tir Dewi yn ardaloedd Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys, Conwy, Sir Fôn, Gwynedd a Gŵyr. Rydym yn chwilio'n barhaus i ehangu ein gwaith yn y gobaith y byddwn, ryw ddydd, yn gwasanaethu ffermwyr ar draws Cymru gyfan.'

Diolch am weledigaeth Tir Dewi, ac am eu hawydd i weithio ar draws yr enwadau i gynnig gwasanaeth i bawb mewn angen. Diolch hefyd am waith a thystiolaeth yr eglwysi ar faes y Sioe – a braff fyddai gobethio, erbyn 2023, y bydd mwy o blith eglwysi anghydfurfiol Cymraeg Cymru yn ymuno yn y genhadaeth. Tybed a yw Duw yn eich galw CHI?



Y caplaniaid cyn cychwyn allan ar waith y dydd



Oedfa'r bore dan ofal y Parch. Evan Morgan, gyda Peredur Griffiths yn cynorthwyo a Delyth Wyn Davies yn cyfeilio

## O'r Beibl: 11

### Y Gwynfydau (4)

'Gwyn eu byd y rhai addfwyn,  
oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.'  
(Mathew 5:5)

Yn yr adnod uchod mae Iesu'n dweud bod y rhai addfwyn yn 'wyn eu byd'. Ond beth mae bod yn 'addfwyn' yn ei olygu?

Os trown at ein geiriaduron Cymraeg, mae 'addfwyn' yn golygu 'tyner' a 'gostyngedig'. Yn Saesneg, mae'r gair 'addfwyn' yn cael ei gyfieithu fel 'meek': 'Blessed are the meek for they will inherit the earth'.

Ond nid troi at ein geiriaduron sydd orau i ddeall beth yw ystyr 'addfwyn', ond at y Beibl ei hun. Wedi'r cyfan, mae gan eiriau'r Beibl ystyr feiblaidd. Dehonglydd gorau'r Beibl yw'r Beibl ei hun. Peth peryglus yw darllen yr hyn yr ydym ei eisiau i mewn i eiriau'r Beibl. Y cwestiwn i'w ofyn yw: nid beth yr ydym ni'n ei feddwl yw ystyr 'addfwyn', ond beth mae'r Beibl yn ei olygu wrth ddefnyddio'r gair hwn?

Wrth ddweud 'gwyn eu byd y rhai addfwyn', mae Iesu'n aralleirio darn o'r Hen Destament. Er mwyn deall beth yw ystyr 'addfwyn', mae'n rhaid troi at y darn hwn o'r Beibl, sef Salm 37:10-11:

Ymhen ychydig eto, ni fydd y drygionus;  
er iti edrych yn ddyfal am ei le, ni fydd ar gael.  
Ond bydd y gostyngedig yn meddiannu'r tir  
ac yn mwynhau heddwch llawn.

#### 'Addfwyn'

Yn adnod 11, gall y gair 'gostyngedig' hefyd gael ei gyfieithu fel 'addfwyn': 'Ond bydd y rhai addfwyn yn meddiannu'r tir'. Ydy hyn yn ein hatgoffa o rywbeth? 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear'.

Ond pwy yw'r rhai 'addfwyn' yn y salm hon? Wel, awdur y salm yw'r Brenin Dafydd. Ysgrifennodd Dafydd y salm hon mewn cyfnod anodd yn ei fywyd pan oedd yn gweld llawer o bobl ddrygionus yn llwyddo



o'i gwmpas. Neges y salm ydy y dylai pobl Dduw ddibynnu ar yr Arglwydd yn hytrach nag edrych ar lwyddiant y drygionus.

Wrth weld y bobl annuwiol yn llwyddo, buasai Dafydd wedi gallu ymateb drwy bryderu a chynhyrfu am ei sefyllfa, drwy fod yn falch ynddo'i hun a cheisio dinistrio'r drygionus. Ond yn Salm 37 nid yw Dafydd yn gwneud hynny. Yn hytrach, mae'n dibynnu'n ostyngedig ar Dduw.

Dyma sut rai yw'r bobl 'addfwyn' yn Salm 37 a Mathew 5:5. Pobl nad ydynt yn cynhyrfu o weld yr annuwiol yn llwyddo. Pobl nad ydynt yn falch a haerllug eu hagwedd, ond sy'n dibynnu'n ostyngedig a gwylaidd ar Dduw ym mhob sefyllfa.

Wrth gwrs, gwelwn yr addfwynder hwn ar ei amlycaf yn Iesu. Fe yw'r person addfwynaf. Yn wir, dywedodd Iesu: 'Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon' (Mathew 11:29). Wrth i Iesu weld y drygionus yn llwyddo o'i gwmpas, nid oedd

yn haerllug a balch. Ni chafodd ei lethu gan bryder a chynnwrf, ond ymddiriedodd yn ostyngedig yn ei Dad – hyd yn oed wrth iddo gael ei hoelio ar groes gan y drygionus a marw dros eu pechodau nhw!

Ar ôl sôn fod y rhai 'addfwyn' yn 'wyn eu byd', mae Iesu'n dweud mai'r bobl yma fydd yn 'etifeddu'r ddaear'. Nid dweud mae Iesu fod y rhai addfwyn yn mynd i etifeddu darn llythrennol o dir, ond dweud fod ganddynt le yn Nheyrnas Dduw. Yna, ar ddiwedd amser, pan fydd Iesu'n sefydlu'r Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd, bydd yr 'addfwyn' yn cael bod yno gydag fe.

#### Cymhwyso

Beth am gymhwyso'r gwirioneddau hyn? Mae'r 'rhai addfwyn', wrth gwrs, yn cyfeirio at bob un Cristion. Mae pob Cristion i fod yn 'addfwyn'.

Pan welwn y drygionus yn llwyddo yn y byd sydd o'n cwmpas, nid oes yn rhaid i ni gael ein llenwi â chynnwrf. Nid oes yn rhaid i ni ymateb gyda chenfigen, eiddigedd ac atgasedd. Yn hytrach, gallwn fod yn 'addfwyn'; gallwn ddibynnu yn ostyngedig ar ein Duw dibynadwy a chyfiawn. Y Duw fydd – yn y pen draw – yn delio â'r drygionus yn ôl ei gyfiawnder perffaith.

#### Cwestiynau

- Beth yw bod yn 'addfwyn' yn ôl syniadau'r byd heddiw?
- Sut mae Salm 37 yn ein helpu i ddeall beth yw ystyr bod yn 'addfwyn'?
- Sut gallwn ni fel Cristnogion dyfu mewn addfwynder?

Gwilym Tudur



#### Caniadaeth y Cysegr

**Sul, 14 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**  
Cyfraniad archdderwyddon i'n hemynyddiaeth – rhaglen 3. Christine James sy'n trafod cyfraniad ein harchdderwyddon i'n hemynyddiaeth.

**Sul, 14 Awst, am 12:00yp**  
Oedfa dan arweiniad Arfon Jones, Caerdydd

#### Caniadaeth y Cysegr

**Sul, 21 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**  
Cyfraniad archdderwyddon i'n hemynyddiaeth – rhaglen 4. Christine James sy'n trafod cyfraniad ein harchdderwyddon i'n hemynyddiaeth.

**Sul, 21 Awst, am 12.00yp**  
Oedfa dan arweiniad Gareth a Lydia Power, Cydweli

## Cymorth Cristnogol yn ennill gwobr am y babell elusennol orau

Enillwyr gwobr Sefydliad y Merched am y babell elusennol orau ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Tregaron eleni oedd Cymorth Cristnogol. Thema'r babell oedd 'Tyfu Bwyd' ac roedd yn dangos yr her fawr i dyfu bwyd yn rhai o wledydd tlotaf y byd oherwydd yr argyfwng hinsawdd. Cyplyswyd y thema ag [apêl](#) frys ddiweddaraf Cymorth Cristnogol, Apêl Argyfwng Newyn Dwyrain Affrica.

Bu'r tîm i gyd yn gyfrifol mewn gwahanol ffyrdd am greu'r arddangosfa, ond Nathan Munday oedd y meddwl y tu ôl i'r cwbl.

Llun: Llinos Roberts, Nathan Munday, Tom Defis yn dal y wobr, a Nan Wyn Powell-Davies







## SOULED OUT CYMRU 22 AWST 13-18

### Canolfan Ieuencid a Phlant Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Coleg y Bala

Rydyn ni'n 'methu aros' i fod 'nôl yn y stafell eto, ar gyfer y 5 diwrnod gwych yma i ieuencid (15+), myfyrwyr ac oedolion ifanc!

Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt SOULED OUT, wrth i ni addoli Duw a gwranddo ar ei Air. Hefyd, bydd rhai seminarau ymarferol yn ystod yr wythnos i'n harfogi a'n hysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu i ymateb i'r hyn rydyn ni'n ei glywed.

Ac yn steil SOULED OUT, rydyn ni'n trefnu llwyth o bethau llawn hwyl i bawb ei wneud! Dros y blynyddoedd, rydyn ni 'di mwynhau *inflatable* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, creffttau creadigol, padlfyrddio, *s'mores* rownd y tân – a bydd digon o bethau newydd i'w mwynhau eto eleni!

Os byddwch yn teithio o'r de neu o ganolbarth Cymru, bydd bws yn cael ei drefnu am gost fach o £10. Bydd gofal plant hefyd ar gael bob bore.


**LLETY:** Bydd pawb dan 18 oed yn aros yng Ngholeg y Bala, gyda'r mwyafrif dros 18 yn aros yng Nghanolfan Rhosygwalia.

**COST:** £122 – Mae'r pris yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. (Os ydych am wneud eich trefniadau llety eich hun, neu am ddod am y dydd, cysylltwch â Choleg y Bala ynglŷn â'r gost o ddod i SOULED OUT.)

Peidiwch â cholli allan! Gnewch yn siŵr eich bod yn ymuno â ni am amser arbennig yn SOULED OUT 22! Dyma ddolen sy'n mynd i'r wefan: <https://souledoutcymru.net/haf/>

### Ffurflen Gofrestru SOULED OUT 22

(Canolfan Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan, Y Bala, Gwynedd LL23 7RY. Ffôn: 01678 520565)



## Cytûn Eglwys Ynghyd yng Nghymru

Mae Cytûn, Eglwys Ynghyd yng Nghymru, yn gwahodd ceisiadau am swydd

### Prif Weithredwr

a ddaw'n wag toc gan y bydd deiliad presennol y swydd, y Parchedig Ganon Aled Edwards, yn ymddeol.

Bydd deiliad y swydd yn:

- ❖ arwain gyda gweledigaeth ar eciwmeniaeth ac ymwneud â'r cyhoedd gan eglwys Cymru a bydd yn galluogi ac yn dwyn ymlaen y rhaglen waith a'r blaenoriaethau a osodir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Cytûn i wasanaethu'r eglwys;
- ❖ goruchwyllo cefnogaeth i'r Cyfamod dros Undod yng Nghymru trwy Gomisiwn yr Eglwys Cyfamodol;
- ❖ rheoli tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen waith y cytunwyd arni gan y bwrdd a'r eglwys sy'n aelodau;
- ❖ Gristion sy'n deall ac yn derbyn sylfaen drindodaidd Cytûn;
- ❖ gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg.

Am fwy o wybodaeth am Cytûn, y rôl, a'r unigolyn yr ydym yn chwilio amdani/o, cysylltwch â [cadeirydd@cytun.cymru](mailto:cadeirydd@cytun.cymru)

Gnewch gais ar-lein at:

[cadeirydd@cytun.cymru](mailto:cadeirydd@cytun.cymru)

A fyddwch cystal â chynnwys y canlynol:

- CV cynhwysfawr sydd yn cynnwys eich llwyddiannau diweddar a manylion dau ganolwr, gydag un ohonynt yn goruchwyllo eich gwaith cyfredol.
- Llythyr cais sydd yn cynnwys eich rheswm dros wneud cais a'r priodweddau y byddwch yn eu dwyn i'r rôl.
- Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 31 Awst 2022
- Cynhelir cyfweiliadau ar 19 Medi 2022

Cysylltwch â [cadeirydd@cytun.cymru](mailto:cadeirydd@cytun.cymru) os oes gennych unrhyw broblemau

## Cymorth Cristnogol yn ymateb i argyfwng llifogydd yn Bangladesh



Yn dilyn llifogydd drwg yng ngogledd-ddwyrain Bangladesh, mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn helpu 1,700 o bobl mwyaf bregus y rhanbarth, trwy ei bartneriaid FIVDB (Friends in Village Development Bangladesh) a DSK (Dushtha Shasthya Kendra). Gyda chymorth ariannol Llywodraeth Prydain a'r Iseldiroedd, mae'r partneriaid wedi bod yn rhoi cymorth drwy arian parod, citiau hylendid, addysg am warchod rhag Covid, a bwyd ar gyfer da byw. Bydd y cymorth hwn yn eu galluogi i oroesi yn wyneb heriau'r argyfwng.



I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion

Cynhaliwyd y cyfarfodydd yng nghapel Bryngwenith, Henllan, nos Fercher, 22 Mehefin 2022 am 6yh, a dyma grynodeb o'r hyn a ddigwyddodd.

Croesawyd y 30 o gynrychiolwyr yn gynnes iawn gan y cadeirydd y Parchg Carys-Ann a rannodd ychydig o hanes yr achos ym Mryngwenith.



### Cofnodion

Derbyniwyd y chadarnhawyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe godwyd y canlynol ohonynt gan nad oeddent ar yr agenda.

Ffoaduriaid o Wcráin: Nododd yr ysgrifennydd ei fod wedi cynnig gwasanaeth y cyfundeb i'r ffoaduriaid drwy Cytûn ond ni chafwyd ymateb ganddynt. Adroddodd y cadeirydd bod y ffoaduriaid bellach yn cael eu dosbarthu o Wersyll yr Urdd i gartrefi amrywiol.

### Gohebiaeth

Derbyniwyd gohebiaeth gan Neville Evans, ysgrifennydd Towyn Ceinewydd, yn hysbysu'r gynhadledd o rodd sylweddol a gyflwynwyd i'r cyfundeb o waddol ariannol yr eglwys. Roedd yr arian i'w ddefnyddio i hyrwyddo gwaith y cyfundeb ymhlith plant ac ieuencid. Diolchwyd i Neville Evans ac aelodau Towyn am y rhodd a nodwyd y bydd y mater yn cael ei drafod dan adroddiad y trysorydd. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o weithgareddau oedd ynghlwm â'r Eisteddfod Genedlaethol a chyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr.

### Gweddi Goffáu

Cyflwynodd Lloyd Jones (Pisgah) deyrnged ddiffuant i'r Parchg Cen Llwyd, Talgarreg gweinidog gyda'r Undodiaid, gŵr uchel ei barch a lluosog ei gymwynasau. Bydd coffa da amdano yn ei fro, drwy'r sir ac, yn wir, drwy Gymru benbaladr. Cytunwyd y byddai'r gynhadledd yn anfon gair o gydymdeimlad at ei deulu. Cyflwynwyd y weddi goffáu gan Parchg Gareth Ioan. Nodwyd coffadwriaeth am y canlynol trwy law'r Ysgrifennydd:

Mrs Kathryn Thomas, Brynrhiwgaed  
Mrs Irene Jones, Carmel, Pren-gwyn  
Mr Evan John Jones, Bwlch-y-groes  
Mrs Freda Pierce, Seion, Llandysul  
Mrs Betty Jones, Horeb  
Mr Gwynfor Davies, Horeb  
Mr Sulwyn Evans, Tabernacl, Pencader  
Mr Vaughan Davies, Gwyddgrug  
Mrs Bessie Williams, Capel Mair  
Mrs Helena Rees, Seion, Aberystwyth

### Adroddiad y trysorydd

Cyflwynodd y trysorydd Gareth Evans, adroddiad yn nodi bod 25 eglwys wedi talu eu tâl aelodaeth i'r cyfundeb hyd yma, gan greu incwm o £410. Roedd casgliad cwrdd chwarter blaenorol yn £70 tuag at apêl Wcráin Cymorth Cristnogol. Derbyniwyd £450 gan gronfa Dydd Gweddi'r Byd tuag at gostau'r Sul Sbsial. Nodwyd hefyd bod rhodd sylweddol o £21,533.88 wedi ei dderbyn gan aelodau eglwys Towyn Ceinewydd y datgorffori. Roedd cyfanswm y derbyniadau, felly, yn £22,463.88, gan greu cronfa o £25,496.97. Roedd y taliadau'n cynnwys £55 o gostau i'r llywydd, £200 o rodd i Gymorth Cristnogol ynghyd â £70 o'r casgliad - cyfanswm o £325.

Yn dilyn trafodaeth am y rhodd gan Dowyn Ceinewydd penderfynwyd y dylid ystyried ei fuddsoddi a'i chadw mewn cronfa ar wahân. O ystyried awgrym eglwys Nanternis yn yr ohebiaeth ar fater arall, y dylid sefydlu panel plant ac ieuencid, awgrymodd yr ysgrifennydd y gellid cyfuno'r ddau fater. Eiliodd Parchg Andrew Lenny y cynnig gan nodi y byddai angen rhoi meini prawf cadarn ynghylch dosbarthu unrhyw adnoddau o'r gronfa. Cytunwyd y dylid gosod y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf a chodi panel bryd hynny.

Diolchwyd i aelodau Towyn Ceinewydd am eu haelioni.

### Sul Sbsial y Cyfundeb

Adroddodd Karine Davies bod y trefniadau mewn llaw ar gyfer cynnal Sul Sbsial yng ngwersyll Llangrannog ar ddydd Sul, 25 Medi 2022.

### Egwyddorion a Rheolau'r Cyfundeb

Adroddodd y cadeirydd, yn dilyn y gwahoddiad agored i gyfrannu sylwadau ysgrifenedig ar y cyfansoddiad drafft yn y cwrdd chwarter, mai un cyfraniad a gafwyd – gan eglwys Annibynnol Nanternis. Penderfynwyd gohirio trafodaeth tan y pwyllgor gwaith nesaf.

Estynnodd Lloyd Jones wahoddiad cynnes i'r cyfundeb i Pisgah 21 Medi am 2yp.

Yn dilyn y gynhadledd cynhaliwyd y cyfarfod pregethu blynyddol dan ofal Parchg Chris Bolton, Gofalaeth Bröydd Teifi. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Anne Lewis ac Elonwy James o eglwys Annibynnol Bryngwenith, gyda Brenda Jones yn gwasanaethu wrth yr organ. Ar derfyn yr oedfa cafwyd lluniaeth ysgafn yn y festri trwy garedigrwydd chwiriorydd yr eglwys.

Aled Jones, Ysgrifennydd

## Colofn Natur a Gwyddoniaeth

### Does debyg iddo fe

Aeth dros chwe deg o flynyddoedd heibio ers i mi gychwyn ar fy aelodaeth o'r Sefydliad Ffiseg (Institute of Physics). Ymhlith y manteision cyson yn ystod y cyfnod hwnnw fu derbyn y cylchgrawn misol; yr enw presennol arno yw *Physics World*. Mae gan y sefydliad sawl cylchgrawn arall sy'n benodol ei gynnwys i ysgrifau technegol gan arbenigwyr ar gyfer cyd-arbenigwyr mewn maes arbennig oddi mewn i ffiseg. Mae *Physics World* yn fwy cyffredinol, rhai ysgrifau yn lled-dechnegol, rhai yn sôn am yrfaeodd pobl, yn enwedig rhai aelodau a ddechreuodd yn ffisegwyr ond a drodd at yrfaeodd eraill. Ceir adolygiadau o lyfrau 'poblogaidd' - hynny yw, llyfrau a allai fod o ddiddordeb i ddarllenwyr nad ydynt yn ffisegwyr - gall y rhain fod yn anrhegion pen-blwydd neu Nadolig. Byddaf yn troi'n aml atynt.

### Boson Higgs

Mae rhifyn cyfredol *Physics World* (Gorffennaf 2022) yn rhoi cryn dipyn o sylw i nodi bod degawd wedi mynd heibio ers y cyhoeddiad syfrdanol (i ffisegwyr beth bynnag) ar 4 Gorffennaf 2012 bod bodolaeth y 'boson Higgs' wedi'i chadarnhau. Geiriau cadeirydd y gynhadledd, Rolf Dieter Heuer, pennaeth CERN ar y pryd, oedd 'I think we have it.' CERN yw'r sefydliad ymchwil niwclear yn y Swistir ble cynhelid yr arbrofion allweddol mewn 'tiwb' danddaearol, sy'n gylch (fwy neu lai) gyda diamedr o 27 cilometr (sawl milltir yw hynny?). Mae boson yn un o deulu'r strwythur sy'n cynnig esboniad ar ddeunydd a natur popeth, boed yn gorff dynol, yn anifail, yn blanhigyn, yn fetel, yn graig, yn nwy, yn hylif, yn ... y cyfan lot. Ers degawdau, daeth y Standard Model, er yn anghyflawn, yn ffefryn ymhlith ffisegwyr oedd wedi brwydro ers blynyddoedd i ddatrys dirgelwch mater. Gyda dyfod boson Higgs daeth ochenaid, bod y colledig wedi'i gael. Rhaid oedd llawenhau. Ble clywais hynny o'r blaen?

### Cymry blaenllaw

Bydd rhai o ddarllenwyr *Y Tyst* yn cofio'r cyhoeddiad yn 2012, yn enwedig oherwydd mai cyfarwyddwr yr anghenfil o offer a gyflawnodd y darganfyddiad – *Large Hadron Collider* – oedd Lyn Evans, Cwmbach, Aberdâr. Yn ddiweddar, bu Cymro arall, un o bennaethiaid presennol CERN, Rhodri Jones

parhad ar y dudalen gefn



# Colofn Mawl a Cherddoriaeth

## Cerddoriaeth, y Deml a'r Ysbryd Glân

Gan Arfon Jones

Ro'n i'n darllen gweddi Heseceia yn Llyfr y proffwyd Ezeia yn ddiweddar, ac yn sylwi'n arbennig ar adnod 20: 'Mae'r Arglwydd wedi'n hachub ni! Gadewch i ni ganu offerynnau cerdd yn nhehl yr Arglwydd weddill ein bywydau!'



Yna yn Llyfr Jeremeia dros ganrif yn ddiweddarach darllenwn ei broffwydoliaeth am adferiad Jerwsalem ar ôl y gaethglud:

'Bydd sŵn pobl yn chwerthin ac yn joio a mwynhau eu hunain mewn parti priodas i'w glywed yma eto. A bydd sŵn pobl yn canu wrth fynd i'r deml i gyflwyno offrwm diolch i'r Arglwydd: "Diolchwch i'r Arglwydd hollbwerus. Mae e mor dda aton ni; Mae ei haelioni yn ddiidiwedd!"' (Jeremeia 33:11)

### Sut gerddoriaeth?

Ydych chi wedi dychmygu erioed sut gerddoriaeth oedd yn yr addoliad yn y Deml yn Jerwsalem? Does gynnon ni prin ddim alawon wedi'u cadw, ond fe wyddon ni fod i gerddoriaeth le canolog yn yr addoliad. Mae'n bosib mai lleisiau yn canu oedd amlycaf, er bod digon o dystiolaeth fod cyfeiliant offerynnol hefyd



e.e. roedd utgryn arian yn cael eu seinio gan yr offeiriaid i gyd-fynd a'r aberthau.

Roedd i gerddoriaeth hefyd le allweddol adeg y gwyliau crefyddol. Roedd utgryn yn cael eu canu i gyhoeddi dyfodiad Dydd y Cymod. Yna ar flwyddyn y Jiwibili, byddai'r corn hwrdd yn seinio ar ddegfed dydd y seithfed mis. 'Ar y degfed diwrnod o'r seithfed mis, sef y diwrnod i wneud pethau'n hollol iawn, rhaid canu'r corn hwrdd drwy'r wlad i gyd.' (Leiticus 25:9)



### Utgryn

Wrth iddi wawrio bob bore yn ystod Gŵyl y Pebyll, byddai grŵp o Lefiaid ac offeiriaid yn mynd i lawr i Bwll Siloam i godi dŵr glân fyddai'n cael ei dywallt ar yr allor ar ôl yr aberth boreol dyddiol. Pan oedd y Lefiaid a'r offeiriaid yn cyrraedd yn ôl i'r deml gyda'r dŵr, byddai'r utgryn yn cael eu canu. Mae'r Talmwd yn dweud fel hyn: 'Dydy'r sawl sydd heb weld Dathliad y Tynnu Dŵr, erioed wedi gweld llawenydd yn ei fywyd.' Awgrym cryf fod y dathlu a'r mawl yn bur fyrlymus!

Felly falle fod geiriau Iesu wrth y dyrfa ar yr achlysur yma yn awgrymu nid yn unig mai fo oedd y dŵr bywiol, ond hefyd mai fo oedd ffynhonnell gwir lawenydd: 'Os oes syched ar rywun, dylai ddod i yfed ata i. Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: "Bydd ffrydiau o ddŵr sy'n rhoi bywyd yn llifo o'r rhai hynny!"'

### Trawiadol

Mae'n rhaid bod clywed y canu a chyfeiliant yr offerynnau wrth iddyn nhw glodfori Duw yn drawiadol iawn. Dw i'n eu dychmygu nhw'n canu salm wahanol bob dydd, ac mae yna draddodiad Iddewig yn awgrymu y bydden nhw ar y Saboth yn canu Salm 92:

'Mae'n beth da diolch i'r Arglwydd, a chanu mawl i dy enw di, y Duw Goruchaf.

Canu yn y bore am dy gariad, a chyda'r nos am dy ffyddlondeb, i gyfeiliant offeryn dectant a nabl a thannau'r delyn. Ti'n fy ngwneud i mor hapus o Arglwydd; A dw i'n canu'n uchel o achos y cwbl rwyd ti'n wneud.'

(Salm 92:1-4)

Bellach gallwn ni foli Duw ble bynnag ydyn ni – gartref, yn y car, yn y capel – gan mai ni ydy'r deml i ddwyn mawl i'w enw. Rydyn ni'n cael ein hannog gan yr Apostol Paul:

'gadewch i'r Ysbryd Glân eich llenwi a'ch rheoli chi. Canwch salmau ac emynau a chaneuon ysbrydol i'ch gilydd – canwch fawl yn frwd i'r Arglwydd.'

(Effesiaid 5:18-19)

Ydyn ni wedi profi'r wefr yma? Tybed sut mae'r mawl a'r gerddoriaeth yn ein bywydau ni? Mae'n ymddangos mai'r allwedd ydy calon sy'n agored i gael ei llenwi â'r Ysbryd Glân.

### Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## CYDLNYDD HYRWYDDO GWEINIDOGAETHAU

Cyfle cyffrous i ymateb i heriau mae eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn eu hwynebu yn y cyfnod ôl-Covid.

- Oes gennych chi'r brwdfrydedd a'r ymroddiad i feithrin, cefnogi a datblygu gweinidogaethau?
- Oes gennych chi'r weledigaeth i ymateb i anghenion yr eglwysi mewn modd rhagweithiol ac arloesol?
- Ydych chi'n barod i fentro mewn cyfnod o newid?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

Derbynnir ceisiadau gan unigolion sy'n dymuno rhannu swydd.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â'r

Ysgrifennydd Gweinyddol,  
Tŷ John Penri,

5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,  
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888

E-bost: ann@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 9 Medi 2022**

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

Y Parchg Ddr Alun Tudur  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.



Daeth tua 200 o bobl ynghyd ar gyfer y digwyddiad, a bu'n rhaid chwilio ar frys am gadeiriau ychwanegol – sefyllfa anghyffredin iawn mewn achlysur Cristnogol!

Y siaradwr gwadd oedd Huw Edwards, oedd wedi dianc yn ôl i Gymru am benwythnos heulog o haf ar ôl bod yn darlledu'n hir am ymddiswyddiad Boris Johnson dridiau ynghynt.

**Araith rymus**

Mewn araith rymus fe wnaeth Huw ganmol y cyfundeb am gynnal gweithgarwch cyfoes a gwahanol. 'Gallwn fod yn falch am yr hyn â

fu, ond peidio â byw yn y gorfennol,' meddai. 'Mae'r tymhorau'n gallu newid pethau, ac mae'n rhaid i ni fel Cristnogion ymateb i'r newidiadau hynny; mae'n rhaid i ni fod yn ddigon hyblyg, rhaid i ni fod yn ddigon ffit ar ein traed i symud yn gyflym, neu mae ar ben arnom ni. Mae'r ffaith eich bo chi'n medru cynnal cyfarfod fel hyn heddi, ar y ffurf yma, yn destun dathlu, achos ry'ch chi'n dangos eich bo chi'n gallu bod yn hyblyg.'

Aeth Huw ymlaen i annog a herio ei gyd-Gristnogion Anghydfurfwr i fod yn fwy gweithredol mewn cymdeithas, ac i godi llais yn uwch ar faterion pwysig y dydd. 'Mae galw ar yr eglwys i fod yn fwy o rym mewn cymdeithas heddiw,' meddai, gan gyfeirio at draddodiad radical yr Anghydfurfwyr.

Cafodd aelodau o'r gynulleidfa gyfle prin wedyn i holi'r holwr mawr! Cadeiriwyd gan y Parchg Tom Evans, cadeirydd y cyfundeb. Mawr yw ein diolch i Huw am iddo ganfod lle yn ei amserlen brysur i ddod atom ni.

**Rhan y plant a'r bobl ifanc**

Aelodau ysgolion Sul Peniel a Siloam gymrodd at y rhannau rhagarweiniol, o dan arweiniad Carys Davies a Meleri Cray. Darllenwyd gan Beca ac Awel, ac fe gawsom ein harwain mewn gweddi gan Gruffydd (ar y *chwith*). Cyfeiliwyd yr emynau yn fywiog gan fand y Priordy. Aeth y plant wedyn i'r Theatr Fach i gymryd rhan mewn gweithgarwch o dan ofal Carys Davies, Ann Evans a Catrin Hampton.

Cafodd pawb gyfle i fwynhau paned a chacen a chlonc yn y caffi ar ddiwedd achlysur cofiadwy a bendithiol. Mwy o luniau a fideo fer o Huw ar: [cyfundeb.com](http://cyfundeb.com)

**Colofn Natur a Gwyddoniaeth – parhad**

yn sgwrsio ar Radio Cymru am gefndir dathlu'r degawd.

Teg nodi nad Peter Higgs oedd yr unig un i dderbyn clod, gan fod ganddo gwmni ar y daith hir, sef, François Englert (Gwlad Belg). Cyd-enillodd y ddyw Wobr Nobel am Ffiseg yn 2013, ond cyfenw Peter sy wedi goroesi i ddisgrifio'r colledig. Pam, tybed?

**Dynol**

Yn yr un rhifyn o *Physics World* mae erthygl gan Robert Crease, athronydd, yn seiliedig ar lun a gyhoeddwyd yn dilyn y dathliad yn dangos Peter Higgs yn y gynhadledd yn sychu deigrin. Mae Crease yn awgrymu bod hyn yn herio'r meddwl cyffredin am ffiseg, sef, ei fod yn weithgaredd dideimlad a hollol wrthrychol ac felly hefyd y sawl sy'n ymddiddori yn y pwnc. Mae'n mynd yn ei flaen i gynnig bod ffisegwyr yn profi holl rychwant teimladau emosïynol, gan gynnwys, parchedig ofn, diflastod, dryswch, siom, digalondid, obsesiwn, pwysedd, syndod, sgeptigaeth ac yn y blaen. Mewn gair, mae ffisegwyr yn ddynol.

**Dim metaffor**

Ar ddiwedd y gynhadledd ddathlu - 'Diwrnod na fu ei debyg yn hanes ffiseg' yw pennawd arall yn y cylchgrawn, cafwyd sesiwn crynhoi gyda Rolf Dieter Heuer yn llywydd. Estynnodd wahoddiad agored am sylwadau. Mewn ymateb cododd newyddiadurwr ar ei draed, gan ganmol y gwyddonwyr ar eu camp ac ychwanegu ei longyfarchion a'i edmygedd o'r holl ddata, tablau, graffiau a diagramau. Yna fe holodd, 'Gyda hyn oll, yn y diwedd, beth yw'r boson Higgs?' Does dim cofnod o effaith y cwestiwn diniwed, treiddgar hwn ar y dorf, ond cofiaf ddarllen beth ddwedodd y llywydd - 'Does dim metaffor.' Pob clod iddo am ei onestrwydd diffuant.

Pan ddarllenais hwn am y tro cyntaf, aeth fy meddwl at emyn 493 yn *Caneuon Ffydd* a'r llinell, 'does debyg iddo fe'. Daliwch eich gwynt! Nid wyf yn un sy'n tynnu cymariaethau amheus a gwirion, ar brydiau, rhwng geiriau ffydd a geiriau gwyddoniaeth. Ond tybiaf fod gwrs fach yma i bawb. Gwrando nid gweiddi ar ein gilydd yw'r nod. Mae llawer llwybr ar Fynydd Gwirionedd.

Neville Evans